**Beth sy’n gwneud coleg?**

Ai cerrig aur cwadiau’r co
a’r gras syber ei groeso,
ai’r tawch, neu’r toeau uchel,
a hen ddâr di’u cerfio’n ddel?
Gwg portread, sŵn Lladin,
sgwrs lednais, gwrtais a gwin,
neu ai pwdin Watcin Wyn
heddiw, fel ymhob blwyddyn?

Ai’r capel a’i dawelwch:
ei wydr llym, trymder llwch
rhyw gannwyll-lafarganu
a’i raen dwfn yn y pren du?
Ai’r holl lên na ddarllenwyd,
hen dei bo staeniwyd â bwyd...
neu sgramblo i brintio mewn brys
ar ras drwy draethawd-greisus,
neu hen lif yr afon lwyd...
ai y strydoedd nas troediwyd?

*  *  *

Hyn: ond nid hyn yn unig.
Yr ŷm oll yn chwarae mig
â hanes sy’n gyfriniach:
stori fwy’r ffenestr fach.
Tybed wyt ti’n clywed clog
trwy wyll y grisiau troellog,
atsain balch troed ar galchfaen
fu’n esgyn fel hyn o dy flaen?

Neu storis y wisteria
am swigod aur hetiau’r ha’
neu sŵn organ sy’n ergyd
fel sêr drwy’r gosber i gyd?
Berw tiwt a’i glebar te’n
hawlio bod cwmni’n rhywle:
cinio, neu rwyfo cynnar,
neu Sul yn yr MCR,
a rhith-wawriau’n ferthyron
i wydrau hwyr y dre’ hon?

Ym mhlethiad amlieithog
ei phlu, roedd gwely i’r gog,
ac ernes fach o gornel

ddiddos gu o Gymru gêl.
Treuliedig yw'r cerrig; co'
gleisiad sy'n dal i glosio.

*                    *                    *

Awn ffwrdd, ond gorgyffyrddwn
ninnau holl lyfrau'r lle hwn.
Atom drwy dwll colomen
dros dro o hyd daw'r stŵr hen;
daw rhai o hyd, pawb â'i dro
i grafu sgoriau rhwyfo
â rhyw sialc i'w ddrws ei hun:
o hyd mae eraill wedyn
yn ddwys glir am ddisgleirio
yn fud oddi tano fo.

O'r heddiw mae'n rhaid graddio:
rhoi gown ar beg coleg co',
wedyn awn, a gadawn ni
i eraill barhau'r stori:
golau hwyr cymdeithas glos,
yn golegol o agos.